
Dogfennau Ategol – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Hybrid – Ystafell Bwyllgora 4, Tŷ Hywel, P Gareth Williams
a fideogynadledda drwy Zoom Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Llun, 18 Medi 2023 0300 200 6565
Amser: 13.05 SeneddDCC@senedd.cymru

Hybrid – Pecyn Atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes (14.35 – 14.40)

3.2 SL(6)370 – Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023

(Tudalennau 1 – 8)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-24-23 – Papur 23 – Adroddiad

LJC(6)-24-23 – Papur 24 – Ymateb Llywodraeth Cymru

5 Papurau i'w nodi

(14.45 – 14.50)

5.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a'r Seilwaith: Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023

(Tudalennau 9 – 11)

Dogfennau atodol:



LJC(6)-24-23 – Papur 25 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd i'r
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a'r Seilwaith, 15 Medi 2023

5.5 Cyflwyniad ysgrifenedig: Ymchwiliad Llywodraethiant y DU-UE

(Tudalennau 12 – 16)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-24-23 – Papur 26 – Cyflwyniad ysgrifenedig gan Mr Chesnais-Girard,
Cadeirydd, Pwyllgor y Rhanbarthau – Grŵp Cyswllt y DU [Saesneg yn unig]

SL(6)370 - Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023

Cefndir a diben

Mae Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023 (**Rheoliadau a Chyfarwyddydau 2023**) yn diwygio Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016 (**y Rheoliadau a Chyfarwyddydau 2016**) mewn perthynas â Chymru. Mae Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016 yn nodi'r dyluniad gorfodol ar gyfer arwyddion traffig ym Mhrydain Fawr, yr hyn maent yn ei olygu, sut maent yn cael eu gosod a sut maent yn cael eu goleuo.

Mae'r diwygiadau hyn yn ganlyniadol i Orchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20mya) (Cymru) 2022 ac yn atodol i'r Gorchymyn hwnnw, sy'n gostwng y terfyn cyflymder cyffredinol ar gyfer ffyrdd cyfyngedig o 30 milltir yr awr i 20 milltir yr awr yng Nghymru pan ddaw i rym ar 17 Medi 2023.

Mae'r gwelliannau a wnaed gan Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023 yn cynnwys:

Arwyddion diogelwch ffyrdd newydd

Er enghraifft, yr arwydd newydd hwn i rybuddio am gamera cyflymder ac i atgoffa gyrwyr o'r terfyn cyflymder 20 milltir yr awr:



Cael gwared ar yr arwyddion presennol

Er enghraifft, ni fydd angen yr arwydd hwn (sy'n rhybuddio am ddiwedd parth 20 milltir yr awr ac sy'n dangos bod y terfyn cyflymder cenedlaethol yn berthnasol) mwyach pan fydd y terfyn cyflymder cyffredinol ar gyfer ffyrdd cyfyngedig yn cael ei leihau i 20 milltir yr awr:



Arwyddion dros dro newydd

Er enghraifft, yr arwydd dros dro newydd hwn sy'n nodi pwynt cychwyn terfyn cyflymder newydd o 20 milltir yr awr (y gellir ei osod yn ystod y 12 mis cyntaf y mae'r cyfyngiad 20 milltir yr awr mewn grym):



Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023 gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023 o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu

(ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y 5 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae rheoliad 3(1)(b) yn cyflwyno testun Cymraeg i gyd-fynd â'r arwydd canlynol:



Y testun Cymraeg i'w ddefnyddio gyda'r arwydd hwn yw "Ysgol", "Hebryngwr", "Maes chwarae", "Plant Anabl", "Plant dall" neu "Plant byddar".

Y disgrifiad cyffredinol Saesneg a roddwyd ar gyfer yr arwydd hwn yn Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023 yw "children going to or from school or playground area". Fodd bynnag, yn Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2016, y disgrifiad cyffredinol sy'n cyd-fynd â'r arwydd hwn yw "plant ymhellach ymlaen yn mynd i'r ysgol neu faes chwarae neu oddi yno". O ganlyniad, ar ôl i reoliad 3(1) ddod i rym, bydd disgrifiad gwahanol o'r arwydd hwn yng Nghymru ac yn Lloegr.


Byddem yn croesawu eglurhad ynghylch a fwriedir y newid o "faes chwarae ymhellach ymlaen" i "ardal y maes chwarae" ac, os bwriedir hynny, pa wahaniaeth y mae hynny'n ei wneud i osod yr arwydd hwn a'i effaith?

2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol


Gan fod Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023 yn gymwys mewn perthynas â Chymru, mae angen i rai arwyddion ffyrdd presennol sy'n berthnasol yng Nghymru a Lloegr fod yn gymwys yn Lloegr yn unig (h.y. mae angen tynnu Cymru o gymhwysiad rhai arwyddion yn Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion

Traffig (Diwygio) (Cymru) 2016). Mae Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023 yn cyflawni hyn drwy fewnosod y geiriau "Mewn perthynas â Lloegr" o ran rhai arwyddion yn Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2016. Mae'r geiriau i'w mewnosod "ar ddechrau" y golofn berthnasol, ond nid yw'n glir yn union ble y dylid mewnosod y geiriau hynny.

Er enghraifft, mae rheoliad 4(a) o Reoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023 yn awgrymu y bydd y geiriau (h.y. y testun coch isod) yn cael eu mewnosod fel a ganlyn: **cyn** rhif y diagram:



Fodd bynnag, lle mae Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023 yn cyflwyno arwydd newydd ar gyfer Cymru, gosodir y geiriau "Mewn perthynas â Chymru" **ar ôl** rhif y diagram. Er enghraifft, mae rheoliad 5 o Reoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023 yn cynnwys y cofnod newydd hwn:



Byddem yn ddiolchgar o gael eglurder ynghylch ble y dylid mewnosod y geiriau "In relation to England" yn Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2016. Rydym yn ychwanegu bod cysondeb o ran ymdrin â materion fel hyn yn bwysig er mwyn sicrhau eglurder a hygyrchedd deddfwriaeth.

3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yng nghyfarwyddyd cyffredinol 9 o Reoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023, mae'r paragraff 2 newydd yn dechrau gyda'r geiriau "This sign...". Mae hyn, fodd bynnag, yn anghyson â drafftio'r paragraff 2 presennol a'r holl baragraffau eraill yn Rhan 4 o Atodlen 10 i Reoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2016 sy'n dechrau gyda'r geiriau "The sign...".

4. Rheol Sefydlog 21.2(i) – ei bod yn ymddangos bod amheuaeth a yw intra vires; Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod ei ddrafftio'n ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mewn perthynas â Rhan 3 o Reoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023, rydym yn codi'r pwyntiau a ganlyn:

- Nid yw'r rhagymadrodd yn nodi pa bwerau galluogi y mae Gweinidogion Cymru yn dibynnu arnynt i wneud Rhan 3. Er ein bod yn credu bod gan Weinidogion Cymru y pwerau i wneud Rhan 3 o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, dylid dyfynnu'r pwerau hynny yn y rhagymadrodd. Mae'r pwerau galluogi ar gyfer Rhan 1 a Rhan 2 wedi'u nodi yn y rhagymadrodd.
- Mae'r rhagymadrodd yn cadarnhau y cydymffurfiwyd â'r gofynion ymgynghori a nodir yn Neddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 o ran Rhan 1 a Rhan 2, ond nid oes sôn am ymgynghori ar Ran 3. Nodwn fod Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 yn gofyn am ymgynghori **cyn y gellir gwneud rheoliadau a chyn y gellir rhoi cyfarwyddydau cyffredinol**. Felly, gofynnwn i Lywodraeth Cymru a yw unrhyw un o'r gofynion ymgynghori yn Neddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 yn gymwys i Ran 3 ac, os ydynt, a gynhaliwyd ymgynghoriad o'r fath cyn gwneud Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023.
- Mae Rhan 1 a Rhan 2 yn benodol yn cynnwys darpariaethau i ddatgan eu bod yn dechrau ar 17 Medi 2023. Fodd bynnag, nid yw Rhan 3 yn cynnwys darpariaeth gychwyn. Er ei bod yn ymddangos o'r cyd-destun cyffredinol bod Rhan 3 hefyd wedi'i fwriadu i ddechrau ar 17 Medi 2023, dylai fod darpariaeth benodol yn datgan pryd y daw Rhan 3 i rym.
- Nid yw'n glir sut y dylid dyfynnu Rhan 3. Mae Rheoliad 1(1)(a) yn datgan y gellir dyfynnu Rhan 1 fel Rheoliadau Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023. Mae Rheoliad 1(1)(b) yn datgan y gellir dyfynnu **Rhan 1 ynghyd â Rhan 2** fel Rheoliadau a Chyfarwyddydau Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) h.y Rheoliadau a

Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023. Fodd bynnag, mae'n ymddangos i ni fod Rhan 3 hefyd yn rhan o Reoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023, yn anad dim oherwydd enw'r offeryn yn ei gyfarwydd yw Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023.

5. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffgiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae rhifo darpariaethau Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2016 yn dechrau gydag "1" ar ddechrau'r rheoliad yn Rhan 1 a'r cyfarwyddydau cyffredinol yn Rhan 2. Fodd bynnag, nid yw'r rhifo yn Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023 yn ail-ddechrau o "1" ar bob Rhan; Yn hytrach, mae'r rhifo yn parhau drwy Ran 1, Rhan 2 a Rhan 3.

Nodwn hefyd fod y ddarpariaeth yn 11(4) yn Rhan 3 yn cyfeirio ato'i hun fel "rheoliad". Fodd bynnag, cyfeirir at gyfarwyddydau cyffredinol 9 a 10 hefyd fel "rheoliadau" (gweler cyfarwyddyd cyffredinol 8 yn Rhan 2).

Mae hyn yn ychwanegu ymhellach at y dryswch o ran dyfynnu gwahanol ddarpariaethau Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023.

Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

6. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae Rhan 3 o Reoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023 yn cynnwys darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed; fel mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud:

Pan fydd Rheoliadau a Chyfarwyddiadau 2023 ar waith, ni fydd angen nifer o arwyddion traffig a marciau ffordd sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd mwyach, ac felly ni chaniateir eu defnyddio yng Nghymru. Diben y darpariaethau a'r arbedion trosiannol hyn yw darparu cyfnod gras ar gyfer rhai arwyddion traffig a marciau ffordd, gan roi rhagor o amser i awdurdodau traffig, ar ôl i Reoliadau a Chyfarwyddiadau 2023 ddod i rym, i sicrhau bod yr arwyddion traffig a'r marciau ffordd cywir ar waith, a bod arwyddion traffig a marciau ffordd nad oes eu hangen / nad ydynt yn cydymffurfio'n cael eu tynnu.

Byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru egluro beth yw goblygiadau hyn ar gyfer gorfodi troseddau traffig ffyrdd yn ystod y cyfnod 'gras'.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phob un o'r pwyntiau adrodd.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 11 Medi 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023

Pwynt Craffu Technegol 1:

Mae'r Llywodraeth yn cadarnhau bod y defnydd o "playground area" yn hytrach na "playground ahead" yn wall teipograffyddol. Nid yw'r Llywodraeth yn ystyried bod y gwahaniaeth yn effeithio'n sylweddol ar weithrediad y ddarpariaeth, ond er mwyn sicrhau cysondeb bydd yn cywiro'r gwall teipograffyddol ar y cyfle nesaf sydd ar gael.

Pwynt Craffu Technegol 2:

Mae'r Llywodraeth o'r farn bod y geiriau "In relation to England" yn cael eu mewnosod yn Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016 ("RhChCAT 2016") yn yr un modd â phan gyflwynir arwydd newydd yn ymwneud â Chymru yn Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023 ("yr Offeryn") (h.y., ar ôl y rhif diagram).

Pwynt Craffu Technegol 3:

Mae'r Llywodraeth yn nodi'r mân anghysondeb a nodwyd ond yn ystyried nad yw'n achosi camddealltwriaeth o ganlyniad i hynny.

Pwynt Craffu Technegol 4:

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y rheoliadau yn Rhan 3 o'r Offeryn gan ddibynnu ar yr un pwerau galluogi ag y ddibynnir arnynt mewn perthynas â Rhannau 1 a 2, sef adran 64 (1), (2) a (3), adran 65 (1) ac adran 85 (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Mae'r gofynion ymgynghori sy'n gymwys i Rannau 1 a 2 o'r Offeryn a nodir yn adran 65 (3ZC), 85 (10) a 134 (10) a (13) hefyd yn gymwys i Ran 3 o'r Offeryn. Ymgynghorwyd ar y darpariaethau trosiannol ac arbed yn Rhan 3 o'r Offeryn cyn i reoliadau gael eu gwneud a chyn i'r chyfarwyddydau cyffredinol gael eu rhoi yn yr un ymarfer ymgynghori yn ymwneud â Rhannau 1 a 2.

Bydd Rhan 3 yn dod i rym ar 17 Medi 2023 ar yr un pryd â Rhannau 1 a 2.

Mae Rhan 3 yn rhan o'r Offeryn, ynghyd â Rhan 1 a 2.

Mae'r Llywodraeth yn nodi'r pwyntiau a wnaed ac yn cydnabod y gellid bod wedi gwneud darpariaeth benodol ar gyfer Rhan 3 mewn perthynas â'r pwyntiau a eglurwyd uchod. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth o'r farn ei bod yn eglur o gyd-destun yr Offeryn — yn enwedig yn sgil y ffaith bod Rhan 3 yn gwneud darpariaeth drosiannol ac arbedion sy'n ymwneud â'r rhannau eraill — bod Rhan 3 yn cael ei

gwneud gan ddefnyddio'r un pwerau galluogi â'r rhannau eraill, yr ymgynghorwyd arni yn yr un ffordd a'i bod yn dod i rym ar yr un pryd.

Pwynt Craffu Technegol 5:

Mae'r Llywodraeth wedi cymryd y farn mai un offeryn o dair rhan yw hwn i bob pwrpas, ac felly dim ond un set o baragraffau wedi'u rhifo y mae wedi'i defnyddio.

Mae'r Llywodraeth yn nodi'r mân anghysondeb a nodwyd yng nghyfarwyddyd cyffredinol 8 ac mae'n bwriadu cywiro hyn drwy slip cywiro.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 6:

Wrth ddrafftio'r Offeryn hwn, mae'r Llywodraeth wedi ystyried effaith y darpariaethau trosiannol ac arbed ar orfodi troseddau traffig ffyrdd yn ystod y cyfnod trosiannol ac yn ystyried na fydd unrhyw effaith. Mae'r arwyddion traffig a ddaliwyd gan y darpariaethau hyn yn ymwneud yn bennaf â pharthau 20mya (gweler eitemau 5 – 7 yn y tabl yn Rhan 2 o Atodlen 10) ac arwyddion ategu 20mya (gweler eitem 1 yn y tabl yn Rhan 2 o Atodlen 10) a marciau ffordd (gweler eitem 9 yn y tabl yn Rhan 2 o Atodlen 10). Ni fydd y terfyn cyflymder ar y ffyrdd y mae'r arwyddion hyn wedi eu gosod arnynt ar hyn o bryd yn newid a bydd yn aros ar 20mya ac felly er y caniateir cyfnod ar ôl i'r Offeryn ddod i rym i awdurdodau priffyrdd gael gwared ar arwyddion traffig diangen a sicrhau bod yr holl arwyddion traffig yn cydymffurfio â RhChCAT 2016 fel y'i diwygiwyd gan yr Offeryn hwn, ni fydd yr arwyddion sydd ar waith ar hyn o bryd yn atal awdurdodau priffyrdd rhag gorfodi'r terfyn cyflymder cywir.

Ni fydd yr arwydd "*TERFYN CYFLYMDER 30MYA NEWYDD MEWN GRYM*" (gweler eitem 38 yn y tabl yn Rhan 6 o Atodlen 13) bellach yn cydymffurfio â RhChCAT 2016 fel y'i diwygiwyd gan yr Offeryn hwn, ond fe'i delir hefyd gan y darpariaethau trosiannol ac arbed. Mae hwn yn arwydd dros dro na ellir ond ei osod yn ystod y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau â'r diwrnod y daw terfyn cyflymder 30mya i rym. Mae'r darpariaethau trosiannol ac arbed yn yr Offeryn yn angenrheidiol er mwyn caniatáu i awdurdodau priffyrdd gadw'r arwyddion hyn yn eu lle (am weddill y cyfnod o 6 mis y gellir eu defnyddio ar ei gyfer o dan gyfarwyddyd cyffredinol 13 yn Rhan 12 o Atodlen 13) ar ffyrdd lle gosodwyd terfyn cyflymder o 30mya yn ddiweddar (a lle mae terfyn cyflymder o 30mya yn parhau mewn grym drwy eithriad i Orchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) 2022 ("y Gorchymyn 20mya")). Mae'r Offeryn yn mewnosod arwydd newydd yn RhChCAT 2016 (sy'n nodi terfyn cyflymder newydd o 20mya - gweler rheoliad 6(b)) i'w ddefnyddio ar ffyrdd yng Nghymru lle mae terfyn cyflymder o 20mya wedi'i osod o ganlyniad i'r Gorchymyn 20mya.



Ein cyf/Our ref: JJ/PO/308/2023

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a'r Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Medi 2023

Annwyl Llyr,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Gorffennaf 2023 ynghylch goblygiadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 ar ddeddfwriaeth amgylcheddol.

Rydym yn rhannu pryderon y Pwyllgor am effaith negyddol bosibl Deddf REUL ar gyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Ar y cyfan, rydym o'r farn bod y Ddeddf REUL yn fenter ddiangen, amherthnasol sydd â chymhelliant gwleidyddol. Nid oedd yn sail synhwyrol ar gyfer diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir yn rhesymol, y gellid bod wedi'i wneud mewn modd mwy ystyriol yn raddol dros gyfnod o flynyddoedd.

Fel y mae, rydym yn hyderus nad yw dirymu'r ddeddfwriaeth a restrir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf yn cael unrhyw effaith uniongyrchol a sylweddol ar gyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae gennym bryderon penodol am y pwerau a roddwyd gan y Ddeddf i Weinidogion y DU i ddiwygio darnau presennol o gyfraith yr UE a ddargedwir (a elwir bellach yn "gyfraith gymhathedig") trwy offeryn statudol. Nid oes gennym wybodaeth ar hyn o bryd ynghylch sut, pryd ac ym mha feysydd y gellid defnyddio'r pwerau hyn i ddiwygio cyfraith amgylcheddol, ac rydym yn ceisio cael rhagor o eglurder gan Defra. Er na fyddai unrhyw ddiwygio o'r fath mewn meysydd cymhwysedd datganoledig fel arfer yn cael ei ymestyn i Gymru gan benderfyniadau Gweinidogion y DU a Senedd y DU, gallai goblygiadau trawsffiniol unrhyw newidiadau o'r fath gael effeithiau negyddol yng Nghymru. Mae fy swyddogion yn parhau i weithio gyda Defra i ddeall eu bwriadau yn y maes hwn a byddant yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ddatblygiadau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

A allwch chi rannu â'r Pwyllgor hwn asesiad Llywodraeth Cymru o gyfraith amgylcheddol yr UE a ddargedwir a restrir yn yr Atodlen?

Rydym wedi asesu'r Atodlen drwy adolygiad polisi llai manwl ac rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth y DU bod yr Atodlen yn cynnwys darnau o ddeddfwriaeth nad oes eu hangen bellach i raddau helaeth, yn enwedig gan nad yw y DU yn aelod o'r UE mwyach. Os bydd unrhyw offeryn yn yr Atodlen yn cael ei nodi fel un sy'n dal i fod o ddefnydd, gellir ei gadw erbyn 31 Hydref trwy OS arall.

Fodd bynnag, mae'r atodlen yn cynnwys Darpariaethau 9 a 10 o Reoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol 2018, gwnaed y penderfyniad i ddirymu'r rhain yn eu cyfanrwydd heb ystyried llywodraethau datganoledig drwy'r Fframwaith Cyffredin Ansawdd Aer. Mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â dyletswydd yr Ysgrifennydd Gwladol i baratoi ac adolygu Rhaglen Rheoli Llygredd Awyr Genedlaethol i nodi sut y gall y DU gyrraedd targedau lleihau allyriadau llygryddion aer. Ar ôl dirymu'r darpariaethau hyn heb unrhyw gynlluniau clir i'w newid gallant nawr arwain at ddiffyg tryloywder yn yr wybodaeth sydd ar gael i randdeiliaid ynghylch y llwybr lleihau allyriadau y mae'r DU yn bwriadu ei gymryd.

Credaf fod tryloywder a chraffu cyhoeddus yn egwyddorion pwysig i'w cadw, ac rwyf wedi gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ymgysylltu'n adeiladol â holl lywodraethau'r DU ar y mater hwn. Mae trafodaethau ystyrllon bellach yn dechrau cael eu cynnal drwy'r fframwaith Ansawdd Aer Cyffredin.

Pa effaith y bydd dirymu cyfraith yr UE a ddargedwir a restrir yn Atodlen 1 yn ei chael ar gyfraith amgylcheddol yng Nghymru?

Am y rhesymau a nodir uchod, nid ydym yn credu bod unrhyw effaith ystyrllon, ar wahân i'r darpariaethau sy'n gysylltiedig â Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol 2018 fel y crybwyllwyd uchod.

A allwch roi sicrwydd na fydd dirymu cyfraith amgylcheddol yr UE a ddargedwir a restrir yn yr Atodlen yn arwain at lai o ddiogelu i'r amgylchedd yng Nghymru?

Fel y soniwyd uchod, mae ein hadolygiad polisi cychwynnol o'r amserlen yn nodi nad ydym yn rhagweld llai o ddiogelu'r amgylchedd yng Nghymru

Sut y gellir cysoni dirymu Atodlen 1 ag uchelgais hirdymor Llywodraeth Cymru i gynyddu safonau ar ôl Brexit?

Fel yr eglurwyd uchod, nid oes gan unrhyw un o'r offerynnau yn Atodlen 1 unrhyw effaith gyfreithiol sylweddol barhaus.

A yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriadau ffurfiol neu anffurfiol â rhanddeiliaid ynghylch effaith bosibl dirymu cyfraith yr UE a ddargedwir a restrir yn yr Atodlen i'r Ddeddf?

Drwy Grŵp Rhyng-Weinidogol EFRA, fe wnes i annog yr Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi'r rhestr o ddeddfwriaeth i'w diddymu cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, oherwydd natur ac amseriad dull Llywodraeth y DU nid oedd modd ymgynghori ffurfiol o'r fath. Gwnaed y newid yn y dull o ddirymu yn y Bil REUL gan Lywodraeth y DU yn hwyr ym mhroses Seneddol San Steffan yn ail hanner Ebrill, a'r Atodlen ei hun a gyhoeddwyd ym mis Mai.

Cyn cyhoeddi'r rhestr hon, roeddwn wedi derbyn gohebiaeth gan randdeiliaid pryderus ynghylch effeithiau posibl colli deddfwriaeth amgylcheddol (na chafodd ei chynnwys yn

rhestr Atodlen 1 o ddeddfwriaeth y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ei dirymu). Rwyf wedi annog y sefydliadau hyn i barhau i wneud unrhyw bryderon yn hysbys i mi a Llywodraeth y DU.

Fel yr eglurwyd uchod, mae pwerau i gadw, erbyn 31 Hydref, unrhyw offeryn a restrir yn yr Atodlen y canfyddir ei fod yn dal i fod o unrhyw fudd. Byddwn yn parhau i adolygu'r Atodlen, gan barhau i siarad ag ymgynghorwyr arbenigol i sicrhau nad yw ein hadolygiad wedi methu deddfwriaeth hanfodol. Mae HSE eisoes wedi darparu cyngor ar ddau benderfyniad y comisiwn sy'n ymwneud â bioladdwyr a oedd wedi'u cynnwys yn yr Atodlen ond sy'n dal yn angenrheidiol. Bydd Llywodraeth y DU nawr yn dileu'r ddeddfwriaeth hon o'r Atodlen. Pan fydd rhanddeiliaid yn nodi deddfwriaeth bellach sy'n dal i gael ei defnyddio, byddwn yn agored i ystyried unrhyw ddadl resymegol i gynnig dull tebyg os oes angen.

Sut ydych chi'n bwriadu sicrhau ymgysylltu ac ymgynghori parhaus â rhanddeiliaid wrth weithredu'r Ddeddf, yn enwedig mewn perthynas ag unrhyw welliannau, esemptiadau neu addasiadau posibl i'r Atodlen?

Mae fy swyddogion yn parhau i drafod â Defra i ddeall eu dull o ymdrin â newidiadau i'r Atodlen ac ar weithredu'r Ddeddf. Yn fwy cyffredinol, nid oes gennym gynlluniau ar hyn o bryd i ddefnyddio unrhyw bwerau o dan Ddeddf REUL i ddirymu neu ddiwygio cyfraith gymhathedig.

Nid oes gennym ddealltwriaeth lawn eto o fwriadau Llywodraeth y DU i ddefnyddio ei phwerau i ddirymu neu ddiwygio cyfraith gymhathedig. Rydym am weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ar unrhyw gynigion o'r fath a bydd angen i ni ystyried sut i ymateb fesul achos. Rydym yn disgwyl i unrhyw ddiwygiadau gan Lywodraeth y DU yn y dyfodol oherwydd Deddf REUL fynd trwy lwybrau ymgysylltu priodol gyda ni a gyda rhanddeiliaid. Byddaf yn ailadrodd y pwynt hwn i Lywodraeth y DU yn ystod fy nhrafodaethau rhyngweinidogol. Ar gyfer unrhyw newidiadau a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU, yn gyntaf bydd angen i ni ddeall unrhyw effeithiau mewn perthynas â Chymru ac yna ystyried mesurau lliniaru priodol lle bo angen. Bydd yn rhaid i ni ystyried sut i ymgysylltu â rhanddeiliaid os a phan fydd Llywodraeth y DU yn egluro ei bwriad i ddiwygio mewn meysydd sy'n effeithio ar bolisi datganoledig yng Nghymru.

A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth neu reoliadau newydd i ddisodli unrhyw gyfraith yr UE a ddargedwir a fydd efallai'n cael ei dirymu o dan y Ddeddf? Os felly, beth fydd y broses a'r amserlen ar gyfer hyn?

Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i ddefnyddio ei phwerau o dan y Ddeddf i ddirymu unrhyw ddarnau pellach o gyfraith gymhathedig, nac i gyflwyno deddfwriaeth newydd i ddisodli deddfwriaeth a gynhwysir yn Atodlen 1 y Ddeddf.

Rwy'n anfon hwn hefyd at Huw Iranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,



Julie James AS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Eitem 5.5



**European Committee
of the Regions**

CoR-UK Contact Group

The Chair

Brussels, *date of official registration*

LCG/ED/ms – D/1611 (2023)

Huw Irranca-Davies, MS
Chair of the Legislation, Justice and
Constitution Committee
Welsh Parliament - Senedd Cymru

Dear Mr Irranca-Davies,

I wish to thank you for your letter of 3 July 2023, requesting the views of the Committee of the Regions and its CoR-UK Contact Group in preparation of a report/opinion on UK-EU governance by the Legislation, Justice and Constitution Committee of the Welsh Parliament - Senedd Cymru.

Having consulted with the CoR members participating in the CoR-UK Contact Group, and following the meeting held on 7 September at the Committee of the Regions between the Senedd delegation and Contact Group member councillor Michael Murphy (IE/EPP), I have the pleasure to transmit a synthesis of the responses to your inquiry in annex to this letter. The CoR CIVEX commission secretariat is at your disposal for any follow-up questions: UK-ContactGroup@cor.europa.eu.

Allow me to note that we remain committed to advocating that the role of local and regional authorities (LRAs) in the EU-UK relationship should be adequately acknowledged, in particular in areas that are directly connected with their competencies and in line with the principles of subsidiarity and multi-level governance, and to working together to improve opportunities for citizens on both sides, creating better conditions for international and local businesses.

I am looking forward to our forthcoming exchanges on this highly important matter, including in the context of the upcoming meetings of the CoR-UK Contact Group.

Yours sincerely,

Loïg Chesnais-Girard (FR/PES)
Chair of the CoR-UK Contact Group
President of the Regional Council of Brittany

Annex:

European Committee of the Regions' contribution to the report/opinion on EU governance of the Committee on Legislation, Justice and Constitution of the Senedd Cymru (Welsh Parliament)

Views on the role given to regional and local authorities in the governance structures of the Withdrawal Agreement and the TCA

The CoR has, notably through its opinion on Strengthening the EU-UK relationship at subnational level and remedying the territorial impact of the UK's withdrawal from the EU¹, expressed its position that the EU-UK agreements lack "territorial depth" as they do not formally recognize the role of local and regional authorities (LRAs) in the EU-UK relationship. The TCA includes very limited recognition of/references to local and regional realities, for example when it comes to adaptation measures to regional conditions in relation to sanitary and phytosanitary measures.

This may be due to the nature of the TCA as an association agreement under Article 217 TFEU, which covers areas either falling under the exclusive competence of the EU (e.g. common commercial policy – free trade area) or where EU legislation already exists (e.g. law enforcement and judicial cooperation). The agreement, therefore, operates as a trade agreement and not as a partnership. This strictly legal approach does not take into account the reality that local and regional authorities are affected by the implementation of the TCA.

Given that the agreements involve the EU and the UK as parties under international law, it is only the EU institutions (notably the Commission) and the UK government that are formally involved in the governance of the agreements. The Member States take part in the meetings of the relevant committees and bodies established under the agreements as observers and discuss the preparation of these bodies' meetings in the Council working groups. When the agreements provide that the bodies established by them are to take decisions with legal effects, the Council (Member States) needs to define the position that is to be adopted by the EU representative (the Commission) by adopting a decision under Article 218(9) TFEU. The CoR does not at present have information whether Member States consult with their subnational levels in these processes.

Contrary to civil society, which has a defined consultative role in the implementation of the TCA in the form of the Domestic Advisory Groups and the Civil Society Forum, there is no formal role given to local and regional authorities under the TCA.

The lack of involvement by LRAs in the governance of the TCA is identified as problematic in general, because territorial impacts of the TCA are not taken into account either in the agreement's implementation or in its monitoring. Some concrete indications of this problem:

- Discussions of the local fisheries' management aspects mostly remain at the highest level (Specialised Committee), de facto excluding local stakeholders and LRAs;
- Difficulties for LRAs to react in case of non-compliance with the agreement (i.e. Sewage management with impacts on coastal tourism activities);
- Lack of transparency of EU-UK discussions, before annual EU-Council on TACs and Quotas in December.

The CoR has urged the European Commission to re-examine the structures of the Partnership Council, which oversees the implementation and application of the TCA, and to seek to address the lack of territorial depth by involving LRAs in the monitoring and governance of the TCA.

¹ Rapporteur Michael Murphy (IE/EPP), Member of the Tipperary County Council, <https://cor.europa.eu/en/our-work/Pages/OpinionTimeline.aspx?opId=CDR-108-2022>

Has there been sufficient engagement of regional and local authorities in decision-making on implementation of the agreements?

In line with the above, the engagement of local authorities in EU-level decision making on the implementation of the agreements is not considered sufficient. This is regardless of the fact that the actual implementation of certain provisions of the agreements falls within the competences of local and regional authorities (e.g. citizens' rights under the Withdrawal Agreement, environment or law enforcement cooperation under the TCA).

The CoR encouraged the European Parliament to adopt a formalized interaction in a mutually beneficial way on points of common concern between the CoR and the European Parliament's Delegation to the UK (D-UK) to the EU-UK Parliamentary Partnership Assembly (PPA) with the aim to provide territory-based evidence about the implementation of the TCA. This has resulted in the CoR being invited to the meetings of the PPA as an observer.

The CoR has established in February 2020 the CoR-UK Contact Group which is the only institutional channel for providing a forum for continued dialogue and political partnership between the EU and UK local and regional authorities and for exchanging know-how, in particular on territorial cooperation and cross-border issues.

The Contact Group provides space for mutual benefit and shared interest to discuss problems or opportunities, particularly in relation to thematic areas that know no boundaries (e.g. climate change, tourism, the digital and green transition and common cultural heritage) arising from the UK's withdrawal from the EU. It also gives CoR representatives the means to discuss such issues with UK local and regional authority representatives, and thus allows for the CoR to maintain and foster such fruitful relationships at the subnational level.

The Contact group does not formally have the implementation of the EU-UK agreements under its remit². Nevertheless, it has discussed issues pertaining to the agreements' implementation, but the discussion up to now has been about institutional aspects of such implementation and has not so much looked at the role of LRA in this.

Views on the transparency of the governance structures and decision-making and whether any improvements are needed

As Member States themselves are formally not parties to the agreements and there is at present no information as to whether Member States consult with their subnational authorities when the implementation of the agreements is concerned, it is difficult to have an overview of different layers of governance.

There is furthermore no obligation to inform the CoR of the discussions or decisions in the meetings of the agreements' governing bodies.

² According to the decision of Bureau of 29 June 2020 on the political objectives and the working methods of the CoR-UK contact group, the groups aims are:

- (a) to act as a forum for continuing dialogue and political partnership between EU local and regional authorities and UK local government and devolved parliaments and assemblies, and to exchange know-how, in particular on cross-border issues;
- (b) to provide local and regional authorities with the opportunity to discuss problems or opportunities regarding the relationship between EU LRAs and UK local government and devolved parliaments and assemblies arising from the UK's withdrawal from the EU;
- (c) to give EU LRAs and UK local government and devolved parliaments and assemblies a means of discussing European Union legislation and possible changes to EU legislation currently applicable in the UK where it would affect them even after the United Kingdom's departure from the European Union. These authorities may continue to be bound by the *acquis communautaire* during the transition period and potentially as a result of any future trade deal.

The meetings of the governing bodies of the agreements are not public. Although decisions or deliberations are often accompanied by press releases, these do not provide a lot of detail about the discussions and the positions taken.

In past Contact Group meetings there has been feedback about developments in the governance of the agreements, or their implementation by the representatives of the Commission participating in the meetings. However, such feedback mostly remains general, "institutional" in nature and does not enter in specificities relevant to the local/ regional level.

The CoR considers that LRAs should be fully involved in the governance structures and decision making within EU Member States. It is noted that civil society is fully engaged in the Civil Society Forum and this level of interaction should be afforded to LRAs.

The CoR has urged the European Commission to re-examine the structures of the Partnership Council, which oversees the implementation and application of the TCA, to seek to address the lack of territorial depth by involving LRAs in the monitoring and governance of the TCA.

The CoR has called for a formal recognition of the CoR-UK Contact Group under the TCA in order to provide an assessment of the subnational dimension of the key policy and legislative issues that will have an impact on the EU-UK bilateral relationship. Thus the Contact Group, bringing together EU and UK representatives at the subnational level, could gain its place in the governance structure of the TCA, much like the PPA or the Civil Society Forum. This would however require eventual amendment of the TCA, agreed by both parties.

Which are the ways to improve the engagement of local and regional authorities in the operation and implementation of UK-EU agreements in the future?

A number of ideas exist for the more effective involvement of local and regional authorities in the EU-UK agreements in the future, as also outlined in the CoR opinion. Whereas the governance of the TCA cannot be changed unilaterally by the EU or the UK, the TCA does not prohibit preparatory meetings in advance of Specialised Committee meetings or the setting up of working groups by the Specialised Committees. As such, ideas range from relatively flexible dialogue structures or preparatory meetings, to the establishment of local working groups and the creation of specific structures for local and regional authorities under the TCA. Some ideas can be implemented informally, other require a decision under the TCA or its amendment.

Ideas could be:

- To establish local dialogues (technical consultation) to address topics of local competences (fisheries, training, mobility, territorial cooperation...); these could also contribute to an improvement in EU/UK relations at the macro level.
- To provide for technical preparatory meetings involving sector representatives and local and regional authorities in advance of the meetings of the TCA bodies, where the interests of local communities are more prominent (e.g. in advance of the meetings of the Specialised Committee on Fisheries).
- To create local working groups dedicated to fisheries' management with the participation of sector representatives and concerned LRAs.

The aim of the latter idea would be to re-establish, with the Commission and the United Kingdom in the lead, fora for dialogue between the fishing industry and the concerned territories both in the EU and the UK. This could take the form of reciprocal participation by fishermen when establishing marine protected areas or new local management rules.

Since the LRAs are involved in managing fishing ports, supporting the sector, managing coastal and marine areas, and even managing resources, they should be fully involved in these new bodies. To facilitate the

integration of local proposals in decision-making at the highest level, the representatives of the United Kingdom and the European Union should be effectively associated. Consultation can help to redevelop a common approach to the management of both fishing resources and marine ecosystems. In this sense, it will contribute to the common interests of the EU and the UK. The creation of such local bodies/fora should be established for marine areas where it is relevant.

It could furthermore be considered to experiment with the application of this approach to the fishing areas including the Channel Islands.

Further possibilities include:

- To use the CoR-UK Contact Group to reinforce the cooperation and exchanges between EU and UK local and regional authorities.
- To request the participation of representatives from local and regional authorities in the Civil Society Forum. Sectoral fora (e.g. on fisheries) could also be created with the participation of representatives from the sector and concerned LRAs.
- To call for a formal recognition of the CoR-UK Contact Group under the TCA in order to provide an assessment of the subnational dimension of the key policy and legislative issues that will have an impact on the EU-UK bilateral relationship.

The pursuit of ideas listed above, some of which would require a formal decision under a TCA body, could be presented as a request on behalf of EU LRAs to the European Commission and UK LRAs to the UK government. It could be also considered whether requests can be co-signed and presented at the same time. The CoR-UK Contact group could constitute a key platform to prepare common initiatives and support their follow-up.